



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Dolbadarn  
Llanberis  
Gwynedd  
LL55 4SH**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2013

## Cyd-destun

Mae Ysgol Dolbadarn yn gwasanaethu pentref Llanberis ac ardal Nant Peris. Nid yw'r ardal a wasanaethir ganddi yn ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd.

Mae 156 ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 22 o oed meithrin. Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan amser yn y Medi wedi eu trydydd pen-blwydd ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Darperir addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i'r holl ddisgyblion. Mae tua 64% o disgyblion yn dod o gartrefi ble siaredir Cymraeg ar yr aelwyd.

Mae gan tua 5% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl sydd yn is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru. Mae 25% o'r disgyblion wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig sydd yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Addysgir y disgyblion mewn pedwar dosbarth cymysg a dau ddosbarth un oedran gan chwe athro amser llawn. Mae'r pennaeth wedi bod yn gyfrifol am yr ysgol ers mis Ionawr 2012.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2006.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dolbadarn yn 2012-2013 yw £3,611. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,839. Mae Ysgol Dolbadarn yn safle 71 o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

#### Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- perfformiad yr ysgol yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg;
- disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd;
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgwr lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel;
- yr ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu diddorol; a bod
- yr addysgu'n gyson dda.

### Rhagolygon gwella

#### Mae gan yr ysgol ragolygon gwella da oherwydd bod:

- y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol sy'n llwyddo'n dda i ddenu cefnogaeth staff, llywodraethwyr a rhieni;
- y cynllunio ar gyfer gwelliant yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau;
- holl aelodau'r staff yn cyfrannu'n effeithiol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau gwella; a bod
- yr ysgol yn barod i ymgymryd yn frwdfrydig â datblygu arferion cydweithio pwrpasol gyda nifer helaeth o bartneriaethau.

## Argymhellion

- A1 Sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cyflawni'r lefelau uwch yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2.
- A2 Datblygu medrau hunanasesu'r disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2, fel eu bod yn deall yn well beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.
- A3 Defnyddio gwybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion yn fwy effeithiol i dargedu grwpiau penodol er mwyn codi safonau.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, llwyddodd bob plentyn i gyflawni'r lefelau disgwylidig, sef deilliant 5 (lefel2) neu well mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol gyda llawer yn cyflawni deilliant 5 mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol. Mae'r canlyniadau yn cymharu'n dda â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ac ysgolion Cymru. Mae'r ganran a gyrhaeddodd deilliant 6 yn well na'r teulu a chyfartaledd ysgolion Cymru ym mhob agwedd.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl, roedd yr ysgol wedi ei gosod yn y canolrif o ran dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Roedd yn y 50% uchaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol ond yn y 25% isaf mewn medrau mathemategol.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 2012, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwylidig, lefel 4 neu uwch, mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn cymharu'n dda â chyfartaledd ysgolion Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg. Yn y pynciau unigol roedd cyrhaeddiad y disgyblion mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu ac ysgolion Cymru ac yn cymharu'n dda mewn Gwyddoniaeth. Mae'r patrwm wedi bod yn gyson dros y pedair blynedd diwethaf.

Ar y cyfan, dros yr un cyfnod, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 mewn Cymraeg a Saesneg (ar wahân i Gymraeg yn 2010) yn cymharu'n dda ag ysgolion y teulu ac ysgolion Cymru ond yn is mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth.

O gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl, roedd yr ysgol wedi ei gosod ymhlith y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran dangosydd y pynciau craidd, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd yr ysgol ymhlith y 50% uchaf mewn Cymraeg a Saesneg. Tebyg yw'r patrwm wedi bod dros y pedair blynedd diwethaf.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol o gymharu perfformiad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen nac ychwaith yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu a chyflawniad blaenorol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ddysgwyr awyddus a brwdfrydig ac yn gwneud cynnydd cyson. Gallant weithio gyda'i gilydd yn effeithiol mewn parau ac mewn gwaith grŵp i gefnogi dysgu ei gilydd. Yn eu gwersi, ac wrth drafod eu gwaith, maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Mae'r rhan fwyaf erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 wedi datblygu eu medrau meddwl yn dda, yn caffael gwybodaeth yn bwrpasol ac yn cymhwyso'r rhain yn llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau llafar llawer o'r plant yn datblygu'n gyflym iawn gan gynnwys y rhai a ddaw o gartrefi di-Gymraeg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ar lafar mewn ystod o sefyllfaoedd. Maent yn siarad yn glir gyda hyder cynyddol ac yn defnyddio geirfa sy'n ehangu. Maent yn mabwysiadu geirfa a goslef fwy ffurfiol mewn gwahanol sefyllfaoedd. Ar y cyfan, mae'r mwyafrif yn darllen testunau syml yn gywir. Maent yn dangos dealltwriaeth o ddiwyddiadau neu syniadau o fewn cyd-destun y wers ac yn mynegi barn yn eu cylch trafod. Mae llawer yn defnyddio ystod o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd a chadarnhau ystyr. Mae gwaith ysgrifenedig llawer o'r plant yn cyfleu ystyr, ac maent yn defnyddio geirfa briodol a diddorol. Ar y cyfan, mae geiriau syml yn cael eu sillafu'n gywir.

Mewn trafodaeth, mae llawer o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 yn gwranddo'n ofalus ac yn ymateb yn synhwyrol drwy ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau sy'n berthnasol i gyfraniadau eraill.

Gall llawer ddarllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ystyrlon gan ddefnyddio goslef briodol. Maent yn dod yn gynyddol gyfarwydd â defnyddio llyfrau amrywiol a rhaglenni cyfrifiadurol yn bwrpasol i gywain gwybodaeth yn eu hastudiaethau.

Mae gwaith ysgrifenedig llawer o ddisgyblion yn aml yn drefnus, yn ddychmygus ac yn glir yn y Gymraeg a Saesneg. Dewisant eirfa yn ofalus er mwyn sicrhau amrywiaeth, diddordeb ac effaith. Defnyddiant brif nodweddion gwahanol ffurfiau o ysgrifennu'n briodol, gan eu haddasu ar gyfer gwahanol ddarllenwyr.

Mae cyflwyniad gwaith a llawysgrifen llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dda.

### **Lles: Da**

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ymwybyddiaeth eang o faterion iechyd ac maent yn cyflawni'n effeithiol yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut y gallant gadw'n iach trwy fwyta'n synhwyrol ac ymarfer eu cyrff trwy wersi a gweithgareddau ymarfer corff.

Mae bron pob disgybl yn ddysgwr bodlon sy'n mwynhau bywyd yr ysgol. Maent yn mwynhau eu gwersi ac yn manteisio ar gyfleoedd i leisio barnau synhwyrol am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae'r ymddygiad yn dda ar draws yr ysgol ac mae pob un o'r disgyblion yn gwrtais iawn wrth ymateb yn barchus i oedolion a chyfoedion. Mae bron pob disgybl yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos lefel dda o gymhelliant a dyfalbarhad yn eu gwaith. Maent yn gwneud penderfyniadau cyson ar sut i wneud eu gwaith a chyflwyno eu canfyddiadau.

Mae presenoldeb y flwyddyn olaf yn 94.5%, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg.

Mae aelodau o gyngor yr ysgol yn cymryd rhan weithredol iawn wrth wneud penderfyniadau buddiol am fywyd yr ysgol. Maent yn mwynhau eu cyfrifoldebau ac yn sylweddoli bod ganddynt lais cryf a dylanwadol mewn perthynas â gweithgareddau dyddiol. Mae eu eu hymroddiad i'r pentref a'r gymuned leol yn arbennig o dda.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu ysgogol yn cael eu cynllunio'n ofalus er mwyn manteisio i'r eithaf ar y profiadau a ddarperir i'r disgyblion. Maent yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn. Mae'r gweithgareddau'n ddychmygus yn y Cyfnod Sylfaen ac yn llwyddo i ennyn diddordeb yr ystod lawn o ddisgyblion. Fe adeiladir ar hyn yn llwyddiannus yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae'r cynlluniau gwaith yn rhoi ffocws cryf ar ddatblygiad medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Fe sicrhewr bod y ddarpariaeth ar gyfer y medrau yn cael ei chydlynu'n briodol fel bod dilyniant ym mhrofiad y disgyblion ar draws yr ysgol. Fe roddir blaenoriaeth uchel i ddatblygu medrau llythrennedd sy'n dylanwadu'n arwyddocaol ar gyflawniad y disgyblion. Mae medrau meddwl yn cael eu datblygu'n llwyddiannus mewn sawl pwnc.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, digwyddiadau cymunedol a rhaglen eang o ymweliadau preswyl ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymraeg mewn amrywiol gyd-destunau yn gyfoethog ac yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da. Rhoddir sylw da i astudio'r amgylchedd a hanes a thraddodiadau lleol. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol i helpu disgyblion i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynaliadwedd a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau yn llwyddiannus i ysbrydoli a herio'r rhan fwyaf y disgyblion. Bron yn ddieithriad, mae'r addysgu yn sicrhau bod disgyblion yn canolbwyntio ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Mae'r athrawon yn modelu iaith yn dda.

Mae amcanion clir ar gyfer gwarsi ac mae athrawon yn trefnu dilyniant o weithgareddau sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion. Maent yn rhannu meini prawf llwyddiant ym mhob gwarsi gan roi cyfleoedd cyson i ddisgyblion osod meini prawf llwyddiant eu hunain. Mae cymorth staff ategol wedi ei ffocysu'n glir ac yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd yr addysgu. Mae'r holl oedolion yn rheoli ymddygiad yn gadarnhaol, yn ddiogel ac yn effeithiol.

Yn ystod y gwarsi, mae'r adborth llafar a marcio cyson yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Fe geir sylwadau adeiladol cyson yn llyfrau'r disgyblion. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r plant arfarnu eu gwaith eu hunain nac ychwaith i gyfrannu'n briodol at osod eu targedau.

Mae gan yr ysgol gofnodion clir a chyson o gyflawniad disgyblion, ac adlewyrchir hyn yng nghywirdeb yr asesiadau ar ddiwedd y Cyfnodau Allweddol. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod addas o ddeunydd asesu'n effeithiol ac yn ei ddadansoddi ofalus i greu darlun clir o gryfderau a materion sydd angen sylw.

Drwy'r adroddiadau, a chyfarfodydd tymhorol, mae rhieni yn derbyn gwybodaeth glir am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion. Cydlynir yr agweddau hyn yn llwyddiannus gan gynllun addysg bersonol a chymdeithasol cynhwysfawr. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd yn cefnogi datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion yn hynod o llwyddiannus ac yn hybu parch a sensitifrwydd at eraill.

Rhoddir y gofal gorau ac arweiniad da i'r holl ddisgyblion ac mae trefniadau buddiol yn bodoli i gefnogi eu iechyd a'u lles. Caiff manteision byw yn iach a datblygu ymarfer corfforol ei hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn cwrdd â gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i adnabod anghenion dysgu ychwanegol sy'n cydymffurfio â'r Côt Ymarfer. Maent yn adnabod anghenion gwahanol ddisgyblion yn fuan ac yn gweithredu'n brydlon a phwrpasol. Mae cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir a gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd. Mae aelodau'r staff yn gweithio'n effeithiol gyda asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgwr lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae yma ethos cartrefol, croesawgar ac mae'r holl ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda. Mae'r staff yn gwerthfawrogi anghenion amrywiol y disgyblion yn dda ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl i fanteisio ar amrediad llawn y ddarpariaeth addysgol.

Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydaddoldeb hiliol yn llwyddiannus drwy waith amrywiol.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn darparu gofod dysgu pwrpasol a hyblyg a gwna'r ysgol y defnydd gorau ohonynt a'r tir o amgylch. Mae'r gofod allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn adnodd deniadol ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol iawn i hybu dysgu.

Mae'r arddangosfeydd lliwgar yn y dosbarthiadau, ac o gwmpas yr ysgol, yn adlewyrchu gwaith y disgyblion a gweithgareddau ehangach yr ysgol. Ceir



amrywiaeth da o adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n bwrpasol er mwyn cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu.

Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer chwarae a dysgu.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn dda ac yn cael ei gefnogi'n effeithiol gan y dirprwy bennaeth. Mae'n sicrhau cefnogaeth gref holl aelodau'r staff i nod ac amcanion yr ysgol, ac mae hyn yn elfen allweddol o'i llwyddiant.

Mae pawb yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i greu ethos ysgol gyfan sy'n annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn creu sylfaen gref wrth ymdrin â chodi safonau a darparu cwricwlwm eang ar draws yr ysgol.

Gwella'r ysgol trwy godi safonau disgyblion ymhellach yw prif ffocws y cynllunio strategol. Mae'r staff yn cyfarfod yn rheolaidd i nodi meysydd i'w gwella. Maent yn dîm sefydlog sy'n defnyddio cyfarfodydd cyson yn bwrpasol i gefnogi eu datblygiad proffesiynol er mwyn symud yr ysgol ymlaen yn strategol.

Mae'r ysgol yn cynnal rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn gweithredu'r gofynion cyfreithiol i fonitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu ym mhob dosbarth.

Mae'r ysgol yn targedu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda ac mae hyn yn cael effaith bositif ar safonau a darpariaeth yn yr ysgol; mae hyn i'w weld yn glir yn y modd mae safonau llythrennedd wedi codi'n ddiweddar. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu'n gadarn.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth ar berfformiad yr ysgol gan y pennaeth ac yn trafod gyda'r athrawon fel rhan o'u rôl o fonitro safonau. Mae gan yr aelodau ymwybyddiaeth drwyadl o berfformiad cyfredol yr ysgol ac maent yn cwstyfnu perfformiad yr ysgol yn gyson.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r broses o gynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol ac yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol. Mae'r broses hunanarfarnu wedi datblygu'n dda, gyda ffocws clir ar godi safonau. Mae aelodau'r staff i gyd yn ymwybodol o bwrpas ac effaith hunanarfarnu ac mae eu rôl yn nhrefniadau rheolaethol yr ysgol yn datblygu'n dda.

Mae'r llywodraethwyr yn herio'r ysgol fel ffrind beirniadol yn effeithiol. Mae'r arweinwyr pwnc yn defnyddio'r trefniadau monitro cynhwysfawr i lunio dadansoddiad defnyddiol o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'u dadansoddiad o'r data yn ddigon manwl i dargedu grwpiau penodol o ddisgyblion er mwyn codi safonau'n ymhellach.

Mae'r cynllun gwella ysgol, sy'n deillio'n glir o'r hunanarfarniad, yn cael effaith gadarnhaol ar osod blaenoriaethau. Mae ffocws y cynllun yn targedu anghenion gwella penodol yn dda iawn.

Mae staff yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol a'u medrau drwy ysgwyddo cyfrifoldebau arwain a thrwy ddatblygiad proffesiynol parhaus priodol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion a phartneriaid eraill.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid i gefnogi lles a chyflawniad y disgyblion.

Mae partneriaethau gyda rhieni yn gryf. Maent yn chwarae rhan amlwg wrth gefnogi disgyblion mewn gweithgareddau awyr agored ac yn cyfrannu'n werthfawr i wella darpariaeth addysgu a dysgu. Mae cymdeithas Rhieni a Chyfeillion wedi codi swm sylweddol o arian i brynu cyfrifiaduron a thafunydd newydd, ynghyd â datblygu'r ardal allanol. Mae'r disgyblion yn cael budd mawr o'r rhain.

Mae partneriaeth hynod effeithiol yn bodoli gyda'r gymuned leol yn arbennig drwy gysylltiadau megis y rhai gydag Antur Waunfawr, Ambiwlans Awyr Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r profiadau hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'u cyfraniad at les y gymuned leol.

Mae'r ysgol yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd ei pherthynas gyda'r asiantaethau cefnogi plant ac maent yn cydweithio'n effeithiol â nhw er mwyn lles a chyrhaeddiad y disgyblion. Mae disgyblion a staff y ysgol yn elwa o'r cydweithio pwrpasol gyda sefydliadau addysg bellach i roi profiadau gwerthfawr i fyfyrwyr.

Mae trefniadau trosglwyddo da yn eu lle gyda'r cylch meithrin lleol sy'n cynnwys cyfleoedd buddiol i'r plant ymweld â'r ysgol o flaen llaw.

Mae cysylltiadau da a threfniadau trosglwyddo effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd gydag amryw o weithgareddau pontio gwerthfawr. Ceir cydweithio adeiladol gydag ysgolion cynradd eraill yn y dalgylch i drafod cynllunio ar gyfer gwelliant a safoni gwaith disgyblion. Mae hyn wedi sicrhau gwell ansawdd a chysondeb yn asesiadau'r ysgol.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staffio, ac adnoddau ariannol eu rheoli a'u defnyddio'n dda. Mae nifer priodol o athrawon profiadol gyda'r wybodaeth a'r arbenigedd angenrheidiol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Rhennir arbenigedd yn bwrpasol iawn i godi safonau mewn pynciau megis addysg gorfforol, celf a cherddoriaeth.

Rhoddir cefnogaeth effeithiol iawn i'r athrawon gan staff cymorth. Maent yn gweithio'n bwrpasol ochr yn ochr ag athrawon yn yr ystafell ddosbarth neu ar ddyletswyddau trwy gydol y dydd.

Gweinyddir yr amser digyswllt mewn modd sy'n sicrhau y gall athrawon gydgyllunio, paratoi ac asesu yn bwrpasol, ac fe gaiff hyn ddylanwad clir ar y modd mae profiadau dysgu yn sicrhau cynnydd a dilyniant.

Fe reolir adnoddau yn ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn effeithiol. Dosrannir arian yn briodol ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, darpariaeth ac ansawdd y profiadau.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Gan mai'r flwyddyn hon yw'r flwyddyn gyntaf i adrodd yn ôl ar y Cyfnod Sylfaen, nid oes data dros amser ar gael.

Yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, llwyddodd bob plentyn i gyflawni'r lefelau disgwylidig sef deilliant 5 (lefel2) neu well mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol gyda llawer yn cyflawni deilliant 5 mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol. Mae'r canlyniadau yn cymharu'n dda â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ac ysgolion Cymru. Mae'r canran a gyrhaeddodd deilliant 6 yn well na'r teulu a chyfartaledd ysgolion Cymru ym mhob agwedd.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl, roedd yr ysgol wedi ei gosod yn y canolrif o ran dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Roedd yn y 50% uchaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol ond yn y 25% isaf mewn medrau mathemategol.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 2012, mae'r canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwylidig, lefel 4 neu uwch, mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn cymharu'n dda â chyfartaledd ysgolion Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg. Yn y pynciau unigol roedd cyrhaeddiad y disgyblion mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu ac ysgolion Cymru ac yn cymharu'n dda mewn gwyddoniaeth. Mae'r patrwm, ar y cyfan, wedi bod yn gyson dros y pedair blynedd diwethaf.

Ar y cyfan, dros yr un cyfnod, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 mewn Cymraeg a Saesneg (ar wahân i Gymraeg yn 2010) yn cymharu'n dda ac ysgolion y teulu ac ysgolion Cymru ond yn is mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth.

O gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl, roedd yr ysgol wedi ei gosod ymhlith y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran dangosydd y pynciau craidd, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd yr ysgol ymhlith y 50% uchaf mewn Cymraeg a Saesneg. Unwaith eto, tebyg yw'r patrwm wedi bod dros y pedair blynedd diwethaf.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol o gymharu perfformiad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen nac ychwaith yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu a chyflawniad blaenorol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr

Derbyniwyd 22 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae lefel bodlonrwydd rhieni ar y cyfan yn cymharu'n eithaf da â'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd ymron bob cwestiwn.

Mae bob rhiant/gofalwr yn datgan eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf iawn eu bod ar y cyfan yn fodlon â'r ysgol a bod eu plant yn hapus a diogel yno. Maent i gyd hefyd yn datgan bod eu plant yn cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol. Teimlant fod y disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg ac yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau.

Mae'r rhan fwyaf yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod ymddygiad y disgyblion yn dda. Maent yn teimlo bod yr addysgu yn y dosbarthiadau yn dda ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi unrhyw fater. Maent yn dweud bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

Mae ychydig yn teimlo nad ydynt yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac nad yw gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. Maent hefyd yn datgan nad oes amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau, ac nad ydynt yn deall trefniadau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae'r atebion i'r pedwar cwestiwn hwn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd.

#### Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 77 o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Mae lefel y bodlonrwydd yn cymharu'n dda â'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda. Maent yn teimlo bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor. Mae bron bob un yn cytuno bod yr ysgol yn eu haddysgu ynghylch sut i gadw'n iach a bod digon o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron bob disgybl yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod gwaith cartref yn eu cynorthwyo i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Mae ychydig iawn o'r disgyblion yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Maent hefyd yn teimlo nad yw plant eraill yn ymddwyn yn dda i'w galluogi i wneud eu gwaith nac ychwaith yn ymddwyn yn dda amser cinio ac amser chwarae.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

Merfyn Lloyd Jones	Arolygydd Cofnodol
Carolyn Thomas	Arolygydd Tîm
Dylan Jones	Arolygydd Lleyg
Kevin Williams	Arolygydd Cymheiriaid
Gareth Jones	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

### Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

#### Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

#### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

#### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.